## Yn Fyw ac Arlein | Live and Online

---




Bwriad y gynhadledd undydd “Antur” yw cau'r bwlch rhwng y diwydiant a myfyrwyr gyda’r ffocws ar gynnwys o faes campau awyr agored. Wedi ei gynnal yng Nghanolfan S4C Yr Egin yng Nghaerfyrddin ac wedi ei lunio ar y cyd rhwng prifysgolion y Drindod Dewi Sant, Aberystwyth, Bangor ac Abertawe bydd myfyrwyr ffilm a chyrsiau awyr agored yn mynychu’r gynhadledd yn Yr Egin ac arlein.
Mae tri siaradwr gwadd anhygoel am rannu o’u profiadau helaeth gan ysbrydoli’r myfyrwyr. Mae gwybodaeth am y tri isod.
Gellir ymuno gyda’r gynhadledd arlein drwy’r ddolen yma : https://us06web.zoom.us/j/86430376896

*The one-day "Adventure" conference aims to close the gap between industry and students with the focus on outdoor sports content. Held at Yr Egin in Carmarthen, student can join in person and online. Three amazing guest speakers want to share their vast experiences and inspire the students. All speakers will contribute in Welsh and translation audio will be available when joining the Zoom webinar. Information on the three is below.*
*You can join the conference online at this link: https://us06web.zoom.us/j/86430376896*



**SESIWN 1**

**11:00**
**Lowri Morgan**

Lowri yw prif siaradwr gwadd y gynhadledd, yn ddarlledwr, anturiaethwr ac awdur sydd wedi ennill BAFTA a chydnabyddiaeth ryngwladol. Mae’n ymwybodol iawn o’r agwedd a’r cymhwysiad sydd eu hangen i sicrhau llwyddiant.
Mae  Lowri, y darlledwr, yn fwyaf adnabyddus am ei rhaglenni dogfen antur a chyflwyno gyda S4C, BBC, ITV a Channel 4. Fel anturiaethwr mae’n cael ei chydnabod fel rhedwraig ultra o’r radd flaenaf, wec rasio ac ennill rhai o'r rasys dygnwc caletaf yn y byd. Enillodd y ras eithafol 6633 Arctic Ultra (390 milltir gorffennodd yn y 10 uchaf ym Marathon Jyngl yr Amazon (140 milltir), a bu’n aelod o'r tîm benywaidd cyntaf erioed i gwblhau

*Lowri is the conference's keynote guest speaker, a broadcaster, adventurer and author, BAFTA-winning and an internationally recognized she’s well aware of the attitude and application needed to achieve success.*
*As a broadcaster, Lowri, is best known for her adventure documentaries and presenting with S4C, BBC, ITV and Channel 4. As an adventurer she is recognized as a world-class ultra runner, having raced and won some of the toughest endurance races in the world. She won the extreme 6633 Arctic Ultra (390 miles), finished in the top 10 in the Amazon Jungle Marathon (140 miles), and was part of the first ever female team to complete and win the*

ac ennill Ras Hwylio’r Tri Chopa. E iddi gael ei hanafu hi oedd y 4ydd benyw i orffen Ras Gefn y Ddraig a chwblhaodd y 333, sef her redeg unigryw yng Nghymru, a welodd Lowri yn rhedeg 160 milltir o ogledd dde Cymru dros gopaon uchaf y wlad mewn 60 awr.
Gwerthwyd ei hunangofiant “Beyond Limits” ledled y byd gan dderbyn clod ac ysgogi eraill.
The Dragon’s Back Race (Saesneg English)
Her 333 (Cymraeg / English Subtitles)
lowrimorgan.co.uk
@_LowriMorgan

*Three Peaks Sailing Race. Although injured she was the 4th female to finish the Dragon’s Back Race and completed the 333, a unique running challenge in Wales, which saw Lowri run 160 miles from north to south Wales over the country's highest peaks in 60 hours.*
*Her autobiography "Beyond Limits" has been sold worldwide to much acclaim.*



**SESIWN 2**

**12:15 Rhodri ap Dyfrig, S4C**

Comisiynydd Cynnwys Ar-lein S4C yw Rhodri gyda chyfrifoldeb golygyddol a strategol am Hansh, brand blaenllaw S4C ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc, yn ogystal â sawl llinyn arall wedi'i wneud ar gyfer ar-lein. Mae Hansh wedi tyfu o gyhoeddi cynnwys ffurf fer ddyddiol ar Facebook ac Youtube, i bodlediadau, newyddion, rhaglenni dogfen a chyfresi ffurf hir.

Mae'n arbenigwr ar ieithoedd a'r cyfryngau digidol, bu'n ymchwilio'r cyfryngau digidol mewn ieithoedd lleiafrifol gyda Chanolfan Mercator gan arwain at gwblhau doethuriaeth yn y pwnc yn 2014. Wedi hynny, bu'n gweithio'n llawrydd ac yna'n gynhyrchydd cyfryngau cymdeithasol yn BBC Cymru. Gwnaeth gyd-sefydlu cynhadledd a chymuned Hacio'r Iaith, sydd yn parhau hyd heddiw i fwydo'r drafodaeth ar bresennol a dyfodol technoleg a'r iaith Gymraeg.

Yn ei fywyd prin oddi ar lein mae'n cerdded gyda'i deulu, rhedeg mynyddoedd a dianc i fydoedd ffuglen wyddonol.

Hansh

Doethuriaeth

@Nwdls

*Online Content Commissioner for S4C, the national Welsh language broadcaster, with editorial and strategic responsibility for Hansh, S4C's flagship brand for young audiences, as well as several other made-for-online strands. Hansh has grown from publishing daily short form content on Facebook and Youtube, to podcasts, news, documentaries and longform series.*

*An expert in languages and digital media, he researched digital media in minority languages with the Mercator Center and completed a doctorate in the subject in 2014. After that, he worked freelance and as a social media producer at BBC Wales. Rhodri co-founded the conference and the Hacio'r Iaith community, which continues to this day to inform the debate on the present and future of technology and the Welsh language. In his rare life offline he walks with his family, runs mountains and escapes to the worlds of science fiction.*

**Llion Iwan, Cwmni Da**

Llion yw Rheolwr Gyfarwyddwr

*Llion is Welsh indie Cwmni Da's*

Cwmni Da, treuliodd deng mlynedd gyda'r BBC, yn gynhyrchydd a cyfarwyddwr dogfennau ar gyfer BBC 1, 2, 4 a BBC Cymru. Enillodd ei ffilmiau wobrau yn y Ffrainc, Swisdir , Canada ac RTS ym Mhrydain. Bu'n cyfarwyddo llaw rydd a darlithio cyn ymuno gyda S4C fel Comisiynydd Cynnwys Ffeithiol a Chwaraeon ble bu'n gyfrifol am negydu hawliau darlledu Tour de France yn y Gymraeg. Mae'n banelydd rheolaidd mewn gwyliau ffilm megis Tokyo Docs, Incheon yng Nghorea a GMZ yn China.
Y ffilm ddogfen oedd maes ei PhD, cyhoeddodd bum nofel a dwy gyfrol ffeithiol yn cynnwys hanes Geraint Thomas yn ennill y Tour de France.

47 Copa: Her Huw Jack Brassington (Cymraeg / English Subtitles)
Cwmni Da

*Managing Director. He spent a decade at the BBC, producing and directing documentary films for BBC1, 2, 4 and as a freelance director. His films have won awards in France, Canada, Switzerland and an RTS award. While commissioner for Factual Content and Sport at S4C he secured the rights to the Tour de France. In 2016 he was appointed Head of Content Distribution. He is a regular panellist at film festivals in Asia, including Tokyo, Incheon in Korea and GMZ in China. His PhD was on documentary film and he has published five novels, a travel book and a diary of Geraint Thomas winning le Tour de France.*

---

I dderbyn dolen i'r gynhadledd cysylltwch a helo@yregin.cymru

Cynhadledd drwy'r iaith Gymraeg a chyfieithiad byw arlein.

**To receive link to the conference email helo@yregin.cymru**

**Welsh medium Conference with live translation via online.**